Cyngor Sir Powys
Neuadd Y Sir
Llandrindod
Powys
LD1 5LG

Dyddiad: 26 Mawrth 2021

Annwyl Riant / Gofalwr,

Wrth i ni nesáu at ddiwedd Tymor y Gwanwyn, hoffwn ddiolch i chi yn ystod cyfnod sy'n parhau i fod yn heriol ac anodd iawn.

Mae'n ychydig dros ddeuddeg mis ers i ysgolion yn y sir gau oherwydd pandemig y Coronafeirws. Mae'r cyfnod hwn wedi cael effaith ar staff ein hysgolion, ar ein dysgwyr ond hefyd arnoch chi fel rhieni a gofalwyr. Mae pawb wedi gorfod addasu a newid mewn cyfnod byr o amser oherwydd yr argyfwng iechyd cyhoeddus hwn.

Felly, unwaith eto, diolch i chi am gefnogi dysgu eich plentyn ers troad y flwyddyn ac am gefnogi eich ysgol yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Er mai ein huchelgais yw i'n holl ddysgwyr ddychwelyd i'w hystafelloedd dosbarth ar ôl gwyliau'r Pasg, nid oes sicrwydd oherwydd y pandemig.

Ar hyn o bryd, mae cyfraddau trosglwyddo yn isel ac mae'r rhaglen frechu genedlaethol yn y sir yn gwneud cynnydd mawr. Fodd bynnag, bydd cryn amser cyn i fywyd ddychwelyd i'r arfer a dyna pam mae'n hanfodol bod teuluoedd yn parhau i ddilyn y canllawiau yma yng Nghymru er mwyn atal lledaenu'r feirws.

Pan fydd yr ysgolion yn dychwelyd ar ôl gwyliau'r Pasg, dylai teuluoedd barhau i fod ar eu gwyliadwriaeth o'r coronafeirws a chadw plant sy'n sâl i ffwrdd o'r ysgol a lleoliadau blynyddoedd cynnar, hyd yn oed os yw'r symptomau'n ymddangos yn rhai ysgafn.

Bydd ysgolion ar agor i ddysgwyr ar ôl gwyliau'r Pasg ar ddydd Mawrth, 13 Ebrill.

Prydau Ysgol o ddydd Mawrth, 13 Ebrill

Bydd Gwasanaeth Arlwyo Powys yn darparu prydau ysgol pan fydd dysgwyr yn dychwelyd ddydd Mawrth, 13 Ebrill. Holwch eich ysgol am eu trefniadau ar gyfer prydau ysgol.

Bydd ein bwydlen yn parhau mewn ysgolion cynradd, gyda'n bwydlen bachu a mynd diwygiedig mewn ysgolion uwchradd. Gyda phob disgybl yn dychwelyd ar ôl gwyliau'r Pasg, bydd pob disgybl sydd â hawl i gael pryd ysgol am ddim yn

cael eu prydau bwyd yn yr ysgol.

Felly, ni fydd unrhyw BACS/talebau yn cael eu dosbarthu, oni bai bod disgybl sydd â hawl i gael pryd ysgol am ddim yn absennol o'r ysgol oherwydd rhesymau sy'n gysylltiedig â Covid.

Os oes gennych unrhyw bryderon neu gwestiynau am brydau ysgol, cysylltwch â'r Gwasanaeth Arlwyo ar cashless.catering@powys.gov.uk neu ffoniwch 01597 826660.

Unwaith eto, hoffwn ddiolch i ysgolion am eu hymdrechion parhaus i gefnogi ein dysgwyr dros y tri mis diwethaf a hefyd i rieni am eu hamynedd a'u cydweithrediad parhaus yn ystod y cyfnod digynsail hwn.

Yn gywir,

Lynette Lovell
Prif Swyddog Addysg Dros Do